



Ar 15 Medi 2016 cyhoeddodd y Llywodraeth Siarter Frenhinol a Chytundeb Fframwaith drafft. Mae hon yn un o gyfres o daflenni gwybodaeth, sy'n esbonio rhai o'r polisiau allweddol sydd yn y drafftiau yn fanylach.

Cefndir

Mae ofynnol i'r BBC wasanaethu pob cynulleidfa ar draws y DU gyfan, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer y rheiny yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Mae'r Llywodraeth wedi ymgynghori â phob un o'r gwledydd datganoledig drwy gydol proses yr Adolygiad o'r Siarter.

Polisi'r Llywodraeth

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwmo i wella darpariaeth y BBC i'r gwledydd a'r rhanbarthau yn y Papur Gwyn yn ogystal â chynyddu atebolrwydd y BBC i'r gwledydd drwy Femoranda Dealltwriaeth y cytunwyd arnynt gan y DCMS, y BBC, Ymddiriedolaeth y BBC a'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn 2015.

Gwella'r ddarpariaeth i'r gwledydd a'r rhanbarthau: Amlinellodd y Papur Gwyn nifer o ymrwymadau a wnaed gan y BBC a'r Llywodraeth i wella darpariaeth yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Er bod gan y BBC yr annibyniaeth i benderfynu sut i wasanaethu ei gynulleidfaedd orau, mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno fframwaith newydd a fydd yn sicrhau y caiff darpariaeth benodol ei gwneud i'r gwledydd yn y cynllun trwyddedu newydd a bod cwotâu 'y tu allan i Lundain' ar gyfer cynnwys a gaiff ei gynhyrchu y tu allan i'r M25 yn cael ei gynnal. At hyn, mae'r Siarter newydd yn ymrwmo'r BBC i gefnogaeth barhaus i ieithoedd lleiafrifol y DU.

Atebolrwydd a llywodraethu: Mae'n rhaid i'r BBC adlewyrchu cyfansoddiad democrataidd y DU, mae'r Siarter newydd felly yn cadarnhau'r ymrwymadau a wnaed yn y Memorandwm Dealltwriaeth ac yn sicrhau bod y BBC yn atebol i'r gweinyddiaethau datganoledig a'r cynulladau o ran materion sy'n berthnasol iddynt. Hefyd mae'r Llywodraeth wedi cytuno i drin Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn gyfartal o ran penodi aelodau'r gwledydd i'r bwrdd unedol newydd gan olygu, am y tro cyntaf, eu bod yn gallu cytuno ar benodiad i fwrdd llywodraethu'r BBC cyn eu penodi (o dan fodel Ymddiriedolaeth y BBC, ymgynghorwyd â Chymru a Gogledd Iwerddon o ran yr apwyntiad ond rhoddwyd y pŵer i'r Alban yn ddiweddar i gytuno ar benodiadau o dan Ddeddf yr Alban).

Cynrychioli a phortreadu: Mae'r BBC wedi ymrwmo i wella'r ffordd y caiff gwledydd a rhanbarthau'r DU eu cynrychioli a'u portreadu drwy ei wasanaethau. Er bod gan y BBC yr annibyniaeth i benderfynu sut i

Am ragor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/government/collections/bbc-charter-review. Os hoffech drafod cynnwys y daflen wybodaeth hon, cysylltwch â enquiries@culture.gov.uk
Ar gyfer ymholiadau gan y cyfryngau, cysylltwch â thîm Newyddion a Chysylltiadau DCMS ar 020 7211 2210

wneud hyn, mae'r Siarter a'r Cytundeb newydd yn amlinellu'r system ar gyfer sicrhau eu bod yn rhoi'r mesurau ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys darpariaeth i Ofcom i osod gofynion ar y BBC i ddarparu nifer penodol o oriau o raglennu, yn ogystal â chynnwys darpariaeth benodol ar gyfer y gwledydd o ran gweithredu'r gyfundrefn drwyddedu newydd am y tro cyntaf.

Dibenion Cyhoeddus: Caiff diben cyhoeddus y gwledydd a'r rhanbarthau ei addasu o'r Papur Gwyn i bwysleisio'r angen i'r BBC gefnogi economïau creadigol pob un o wledydd y DU drwy gyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus.

Y darpariaethau yn y Siarter a'r Cytundeb

Siarter

Erthygl 6. (5) Diben Cyhoeddus: addasiadau i'r diben cyhoeddus presennol 'Cynrychioli'r DU, ei wledydd, rhanbarthau a chymunedau' i '*adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol o bob un o wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig a, thrwy wneud hynny, gefnogi'r economi greadigol ledled y Deyrnas Unedig*'; mae hyn yn sicrhau y bydd y BBC yn adlewyrchu amrywiaeth y DU o ran ei allbwn a'i wasanaethau a'i fod yn darparu allbwn a gwasanaethau sy'n diwallu anghenion gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU, ac wrth wneud hynny yn cefnogi'r economïau creadigol ledled y DU.

Mae **Erthygl 23 Aelodau Anweithredol y Bwrdd ar gyfer y gwledydd** yn sicrhau bod Bwrdd newydd y BBC yn cynnwys cyfarwyddwr anweithredol ar gyfer pob un o wledydd y DU ac yn manylu ar y trefniadau ar gyfer eu penodi. Gall y Gweinyddiaethau Datganoledig gytuno ar eu cynrychiolydd cenedlaethol ar Fwrdd newydd y BBC cyn iddynt gael eu penodi - dyma'r tro cyntaf i hyn ddigwydd yn achos Cymru a Gogledd Iwerddon, gan roi'r un parch iddynt â'r Alban.

Mae **Erthyglau 36-38 Darpariaeth ar gyfer y gwledydd mewn perthynas â'r Cynllun Blynyddol, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon** yn nodi bod yn rhaid i'r Cynllun, yr Adroddiad a'r Cyfrifon gynnwys manylion am y ddarpariaeth ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau. At hyn, mae'r cymalau yn rhoi cyfarwyddiadau i'r BBC anfon ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon i'r Gweinidogion Datganoledig ar yr un pryd ac y cânt eu hanfon at yr Ysgrifennydd Gwladol, ac yna gyflwyno ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon i'r cynullïadau datganoledig. Golyga hyn y gall y cynullïadau datganoledig ddwyn y BBC i gyfrif am y ffordd y maent wedi cyflawni drwy gydol y flwyddyn yn erbyn eu strategaeth ddatganoledig, a nodir yn y Cynllun Blynyddol.

Mae **Erthygl 42 Darpariaeth i'r BBC ymddangos gerbron y cynullïadau datganoledig** yn cynyddu atebolrwydd y BBC i'r gwledydd datganoledig ac mae'n rhaid i'r BBC gydymffurfio â chais cynullïad datganoledig, neu bwyllgor, ar yr un sail â Llywodraeth y DU, mewn perthynas â materion sy'n ymwneud a'r wlad honno.

Mae **Erthygl 46 Prif Swyddogaethau Ofcom** yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom i osod amodau rheoleiddiol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r BBC sicrhau y caiff cynulleidfaoedd yn y gwledydd eu gwasanaethu'n dda. Mae hyn yn ffurfioli'r ymrwymiad i'r system trwydded weithredu gynnwys darpariaeth benodol ar gyfer y gwledydd.

Mae **Erthygl 57 (2) Adolygiad Canol Tymor** yn ei gwneud yn ofynnol bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn ymgynghori â Gweinidogion yn y gweinyddiaethau datganoledig o ran cwmpas a chylch gorchwyl yr adolygiad.

Mae **Atodiad 59 - Adolygiad o'r Siarter** yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â'r gweinyddiaethau datganoledig mewn unrhyw Adolygiad o'r Siarter a chyflwyno Siarter a Chytundeb drafft i'r deddfwrfeydd datganoledig cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan y Cyfrin Gyngor. Mae hyn yn ffurfioli'r broses sydd wedi digwydd drwy gydol yr adolygiad hwn ac yn cadarnhau'r sefyllfa ar gyfer adolygiadau yn y dyfodol.

Cytundeb

Mae **Cymal 38, Cymru** yn nodi cefnogaeth y BBC i'r Gymraeg ac yn gwarantu ymrwymiad parhaus y BBC i ddarparu cynnwys Cymraeg.

Mae **Cymal 39 Partneriaeth a model ariannu ar gyfer Gwasanaethau S4C** yn nodi'r bartneriaeth a'r model ariannu ar gyfer S4C. Mae hyn yn cynnwys darparu £74.5 miliwn o arian Ffi'r Drwydded tan 2020/21; bydd ariannu y tu hwnt i hyn yn amodol ar broses a gaiff ei phenderfynu yn dilyn Adolygiad o S4C. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwmo i adolygiad cynhwysfawr o S4C yn 2017, a fydd yn edrych ar amrywiaeth o faterion yn cynnwys trefniadau ariannu, cylch gwaith ac atebolrwydd.

Mae **Cymal 40 Yr Alban** yn nodi cefnogaeth y BBC i'r iaith Gaeleg ac yn cynnwys ymrwymiad newydd gan y BBC i barhau a'i bartneriaeth gyda MG Alba am y 11 mlynedd nesaf. Mae hyn yn gwarantu cefnogaeth y BBC i MG Alba a'i ymrwymiad parhaus at ddarpariaeth.

Mae **Cymal 41 Gogledd Iwerddon** yn nodi cefnogaeth y BBC i'r Wyddeleg ac iaith Albanaidd Ulster ac yn gwarantu ymrwymiad parhaus y BBC at ddarpariaeth.

Mae **Atodlen 2 Trwydded Gweithredu - Amodau Rheoleiddio** yn nodi manylion y meysydd gwahanol y dylid eu cynnwys mewn trwydded weithredu. Mae hyn yn cynnwys sicrhau y caiff rhaglennu a gwneud rhaglenni yn y gwledydd a'r rhanbarthau eu cwmpasu (gweler isod).

Mae **Atodlen 2, Cymal 5 Rhaglennu ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau** yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer Ofcom i osod cwotâu ar gyfer faint o raglennu rhanbarthol y dylid ei ddarlledu. Mae'n rhaid i hyn - fel isafswm - gynnal lefelau presennol. Fodd bynnag, gall Ofcom ystyried p'un a ddylid cynyddu'r cwotâu presennol.

Mae **Atodlen 3, Cymal 6 Gwneud rhaglenni yn y gwledydd a'r rhanbarthau** yn amlinellu'r trefniant ar gyfer cwotâu 'y tu allan i Lundain'. Caiff y rhain eu nodi gan Ofcom, ac mae'n ofynnol iddynt - fel isafswm - gynnal y lefelau presennol (dylai 50% o gynnwys y BBC gael ei wneud y tu allan i ardal yr M25, gyda 17% yn cael ei wneud yn y gwledydd). Fodd bynnag, gall Ofcom ystyried p'un a ddylid cynyddu'r cwotâu presennol.